**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 16eg Mehefin 2021 gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**19. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr A. R. James a Ms J. L. McAlpine.

**20. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Blynyddol y Cyngor | - | 19eg Mai 2021 | - Rhifau Cofnod 1-18 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 2ail Mehefin 2021 | - Rhifau Cofnod 1-4 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 2ail Mehefin 2021 | - Rhifau Cofnod1-14 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *as eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

**21. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Mader at seremoni wobrwyo yn Ysgol Babyddol Christ the Word a'i bod wedi ei fwynhau yn fawr, a chael taith o gwmpas yr ysgol ac ateb y nifer o gwestiynau a ofynnwyd gan y myfyrwyr.

Roedd y Maer hefyd wrth ei bodd i gyfarfod y sawl a greodd orchuddion wedi eu crosio ar flychau llythyrau'r Rhyl, Rachel a Ruth Williamson a chyflwyno tystysgrifau iddynt am eu dyluniadau hynod.

## 22. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (26ain Mai - 8fed Mehefin 2021)*

| Rhif Taleb. | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1166 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 2,625.00 | Tynewydd CC – Ffi reoli ar gyfer Ch1 2021/22 |
| 1173 | WPS Insurance | 3,963.65 | Polisi yswiriant cyfun masnachol |
| 1174 | WPS Insurance | 39.20 | Yswiriant costau cyfreithiol cyffredinol |
| 1175 | WPS Insurance | 56.00 | Yswiriant costau cyfreithiol cyflogaeth |
| 1176 | WPS Insurance | 428.87 | Yswiriant peirianyddol |
| 1177 | Y Cyngh E. M. Chard | 53.00 | Treuliau cymorth y Maer |
| 1178 | Denbighshire Homestart | 2,000.00 | Cymorth Teuluol yn y Rhyl |
| 1179 | Wilko | 11.00 | Fframiau  a deunydd glanhau |
| 1180 | The Works | 1.00 | Papurach |
| 1181 | Y Cyngh J. Ball | 150.00 | Taliad ar gyfer costau a threuliau |
| 1182 | The Osbourne Trust | 30.00 | 2 x docyn ar gyfer digwyddiad elusennol ar 10fed Gorffennaf 2021 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£9,357.72** | |

Gwnaed taliad argyfwng ar gyfer taleb rhif 1166 ar 1af Mehefin 2021. Dylid bod wedi talu ddechrua Mai 2021.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

## 23. ADRODDIAD ARCHWILWYR MEWNOL`

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad yr Archwiliwr Mewnol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad a'i gyfeirio at yr Is-bwyllgor Asesu Risg i'w fonitro.*

**24.** **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21**

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gadarnhau'r datganiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'w gynnwys yn Natganiadau Ariannol Cyngor Tref y Rhyl 2020/21 ac awdurdodi'r Maer i lofnodi'r ddogfen.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r datganiad a chyfaryddo'r Maer i'w lofnodi ar ran y Cyngor Tref.*

**25.** **DATGANIAD BLYNYDDOL CYNGHORAU LLEOL YNG NGHYMRU 2020/21**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y Datganiad Blynyddol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei gymeradwyo er mwyn ei gyflwyno i'r Archwiliwr Allanol, ac awdurdodi i'r Maer ei lofnodi.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau ddatgan unrhyw wrthdrawiad buddiant posibl sydd ganddynt gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a benodwyd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r datganiad a chyfaryddo'r Maer i'w lofnodi ar ran y Cyngor Tref.*

**26.** **PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL ANNIBYNNOL CYMRU – LWFANSAU AELODAU 2021/22**

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau nodi, yn unol â phenderfyniadau Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol Cymru a pholisi'r Cyngor Tref, y bydd taliadau o £150 yn cael eu gwneud i aelodau oni fyddant yn nodi ar bapur nad ydynt eisiau ei dderbyn drwy gwblhau Atodiad A.

Dylai Aelodau sy'n hapus i dderbyn y taliad gwblhau atodiad C.

Bydd aelodau nad ydynt yn cwblhau'r naill ffurflen na'r llall yn derbyn siec am £150 yng nghyfarfod Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol mis Gorffennaf.

**27.** **DEDDF LLESIANT 2016 ADRODDIAD LLESIANT 2018-2021**

Cyflwynodd Clerc y Dref yr adroddiad statudol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar gyfraniad y Cyngor Tref tuag at flaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych i'r aelodau ei gymeradwyo.

Dywedodd Clerc y Dref bod angen diweddaru'r ddogfen bob blwyddyn ac roedd ei angen ar gyfer archwiliad allanol yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**28.** **YMGYNGHORIAD A CHYNNIG CYFARFOD: RWE POWER**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gohebiaeth gan Cadno Communications ar ran RWE Power, yn cynnig cyfarfod cynrychiolwyr y Cyngor Tref i drafod cysylltu fferm wynt ychwanegol i'r grid ar y tir yn nwyrain y Rhyl (dosbarthwyd papurau cefndir gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cynnig a bod Clerc y Dref yn gwahodd Cadno Communications i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.*

**29. PENODI CYNRYCHIOLYDD – MENTER TREFI CLYFAR**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gohebiaeth gan Gyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gwahodd y Cyngor Tref i benodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd menter Trefi Clyfar.

***PENDERFYNWYD*** *enwebu'r Maer i fynychu'r cyfarfodydd.*

**30. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**31. COFNODION PWYLLGOR CSG**

Cyfeiriodd y Maer at gofnodion cyfrinachol y Pwyllgor CSG (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a gynhaliwyd ar 10fed Mai 2021 er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion ynddynt.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cofnodion.*

**32. COFNODION YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG**

Cyfeiriodd y Maer at gofnodion cyfrinachol yr Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a gynhaliwyd ar 26ain Ebrill a 24ain Mai 2021 er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion ynddynt.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cofnodion.*

**33. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CYNNAL A CHADW TIROEDD**

Cyfeiriodd y Maer at gofnodion cyfrinachol yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a gynhaliwyd ar 17eg Mai 2021 er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion ynddynt.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cofnodion.*

**34. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………